

DIDDORDEB mewn hel achau a ddaeth â'r Parchedig Peter Bayley Williams i'm sylw gyntaf trwy ddarganfod bod hen daid i mi o'r enw Harry Jones wedi bod yn gweithio iddo am gyfnod ym Mhantafon, Llanrug, ac mai ef hefyd a'i priododd gyda Mary Jones o Pant Ifan Fawr (yr hen enw ar Pantafon). A byth er hynny y mae rhywfodd wedi croesi fy llwybr sawl gwaith.

Er chwilota cryn dipyn, buan y darganfom nad oes fawr iawn wedi ei ysgrifennu amdano, ac felly nid oedd dim amdani ond ceisio gwneud ychydig o waith ymchwil fy hun.

Fe'i ganwyd yn Llandyfeiliog, Sir Gaerfyrddin yn 1763, y pumed o blant y Parchedig Peter Williams, yr Esboniwr. Ar ôl addysg gynnar yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, fe aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen, a dilyn ei dad a'i frawd hynaf, Eliazer, yn yr offeiriadaeth.

Fe arhosodd am ychydig yn Swydd Rhydychen ar ôl graddio, ond yn 1792 daeth i Lanrug fel Rheithor y Plwyf ynghyd â Phlwyf Llanberis. Yma y bu yn gweinidogaethu hyd ei farwolaeth yn 1836.

* * * *

OS AM adnabod unrhyw berson yn drwyadl, mae'n debyg nad oes ffordd well na thrwy astudio ei lythyrau. Yn hyn o beth, 'rwyf wedi bod yn ffodus fod yna yn agos i 500 o lythyrau y Parchedig Peter Bayley Williams ar gael o hyd yn Adran y Llawysgrifau yn y Brifysgol ym Mangor, ac yn y Llyfrgell Genedlaethol a manau eraill.

Y peth cyntaf sydd yn dod i'r amlwg wrth astudio'r llythyrau hyn yw nifer ei diddordebau fel hanesydd, hynafiaethydd, casglwr hen lawysgrifau, llysiueydd, awdur a chyfieithydd, a chyfrannwr cyson i liaws o gylchgronau ei oes yn Gymraeg a Saesneg ar sawl pwnc — gan gynnwys pynciau amaethyddol. 'Roedd hyn i gyd yn ychwanegol i'r ffaith ei fod erbyn 1808 wedi ei benodi yn Ustus Heddwch, ac mae'n amlwg o'i lythyrau ei fod yn cymryd at y gwaith hwn gydag arddeliad a brwdfrydedd mawr.

Mae ei lythyrau fel Ustus Heddwch yn hynod bwysig a diddorol am y byddai yn ysgrifennu gyda manylder mawr am broblemau ei oes, ac fe welir ynddynt ei bersonoliaeth a'i ddynoliaeth yn dod i'r amlwg wrth ymdrin â'r problemau hynny.

Y broblem fawr a wynebai ei blwyfolion wrth gwrs oedd tlodi, ac fe ddengys ei lythyrau sut 'roedd Deddfau'r Tlodion yn cael eu gweinyddu. Maent hefyd yn dangos cymaint ei bryder wrth geisio helpu ei blwyfolion yn erbyn gorthrwm ambell Oruchwyliwr ystyfnig, anhydrin, ac 'roedd hyn ynddo'i hun yn beth eithaf anghyffredin.

EDGAR W. PARRY yn cofio Yr offeiriad a anghofiwyd



Peter Bayley Williams
1768 — 1836

Fe welir hefyd ryfel y Degwm yn eginu yn nhir Arfon ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif, ac fel pob Offeiriad arall 'roedd Bayley Williams yn credu'n ddiysgog yng nghyfiawnder y degwm, cymaint yn wir fel ei fod yn barod i fynd i gyfraith i gael yr hyn a deimlai'n hollol ddyledus iddo.

Yn 1794 fe ysgrifennodd 'Amddiffyniad y Grefydd Sefydledig' yn Y *Cylchgrawn Cymraeg* sydd yn cynnwys ei ddadl ddeheuig dros dalu'r degwm fel:

rhodd i Dduw, a chydabyddiaeth o'i ddaioni, ei ragluniaeth a'i lywodraeth Ef, y dylai pobl dalu degymau, ac nid fel rhodd i ddyinion . . . a pha fodd y gallwn ni wneuthur hyn yn well na thrwy eu rhoddi i'w weinidogion ef.'

Ond er cryfied ei deimladau, fe ddengys ei lythyrau sawl enghraifft ohono yn tynnu achos cyfreithiol yn ôl ar ôl deall yr amgylchiadau pam nad oedd ambell ddegwm yn cael ei dalu, ac fe welir y ddeuoliaeth yma yn ei gymeriad yn dod i'r amlwg sawl gwaith.

* * * *

NID OES amheuaeth am ei hoffter o farddoniaeth Gymraeg fel y dengys ei gasgliad o hen lawysgrifau. Y mae rhyw ddeuddeg cyfrol o'r rhain yn Adran y Llawysgrifau yn y Coleg ym Mangor — a nifer mwy wedi eu llosgi gan weithwyr ym Mhantafon ar ôl ei farw! Dadlai'n gryf mewn llythyr yn 1828 at Gwallter Mechain yn erbyn yr Archdeacon Beynon a oedd wedi galw am anwybyddu'r mesurau caeth mewn araith yng Nghaerfyrddin.

Er na ellid ei ystyried yn fardd fe gyhoeddodd ambell gyfieithiad Saesneg eithaf clodwiw fel y 'Cywydd i Ynys Enlli' gan Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys (c.

1460) a ymddangosodd yn y *Cambrian Register* yn 1818.

Mae ei lythyrau i Gwallter Mechain yn mynegi hefyd ei bryder am ddirywiad yr iaith Gymraeg. Er cymaint ei ffyddlondeb tuag at yr Eglwys Sefydledig, 'roedd yn barod iawn i feio'r esgobion am benodi offeiriad uniaith Saesneg i ofalaethu trwyadl Gymreig, a thrwy hynny orfodi'r Cymry i ymdrechu i addoli mewn iaith nad oeddynt yn ei deall.

Teimlai fod yr iaith Gymraeg hyd yn oed yn Arfon yn 'cilio i'r mynyddoedd' oherwydd y duedd i fod yn ffasiynol wrth geisio siarad Saesneg.

Ni dderbynai chwaith ddamcaniaethau y Dr W. Owen Pughe am orgraff yr iaith a theimlai fod ei syniadau yn mynd i esgor ar iaith a fyddai yn annealladwy i'r bobol, ac ymunodd yn yr alwad i gacl Cadair Gymraeg yn Rhydychen.

* * * *

'ROEDD ganddo deimladau cryf am Iolo Morganwg. Bu Iolo yn aros gydag ef am rai dyddiau ond ni dderbyniodd ddaliadau Iolo am Gyfrinach y Beirdd, ac ati. Dyma fel y disgrifiodd yr ymweliad:

'David Thomas (Dafydd Ddu Eryri) heard him express his opinions and make use of some blasphemous expressions respecting Our Saviour. He was at my house for some days but was afraid to do this in my presence. I know he did not adhere to the truth and would invent anything that would suit his purpose . . . A man devoid of religion is generally devoid of principles and integrity.'

Cafwyd ef yn gefnogwr selog o unrhyw gyfrwng addysgol ac mae'n debyg mai hyn a'i harweiniodd i gyhoeddi nifer fawr o erthyglau wedi eu seilio ar ei lawysgrifau, ac os nad oedd ynddynt wreiddioldeb, teimlai ei bod yn bwysig i'w dwyn i sylw'r cyhoedd.

Yn 1796 cyhoeddodd gyfieithiad Cymraeg o Ragymadrodd Lladin y Dr John Davies, Mallwyd, i'w Eirlyfr Cymraeg.

Yn 1821 y daeth ei lyfr *A Tourist's Guide Through the County of Carnarvon* allan, gydag ail argraffiad yn 1828. Wrth ystyried ei weithiau hanesyddol a hynafiaethol fe ddylid meddwl amdano yng nghyd-destun ei oes. Y mae'n amlwg o'r llyfr hwn ei fod wedi benthyca o waith Thomas Pennant o *A Tour in Wales*, ond onid dyna drefn yr oes? Ac onid oedd Thomas

Pennant ei hun yn euog o'r un camwedd?

Ond ar y llaw arall fe gyfrannodd yn helaeth i *The History of North Wales* gan William Cathall. 'Roedd yn ddilornus iawn am i Cathall ymgymryd â'r gwaith hwn ac yntau yn gwybod nemawr ddim am yr ardal na chwaith yn deall Cymraeg. Yn wir yr oedd Cathall ei hun wedi cydnabod nad oedd erioed wedi ymweld ag amryw o'r siroedd!

Yn 1825 cyfieithodd ddau lyfr Baxter i'r Gymraeg — *Tragwyddol Orphwysfa'r Saint a Galwad i'r Annychweledig* ac yna yn 1830 cyhoeddodd *Dwy o Bregethau*.

Cyflwynwyd iddo Fedal y Cymmrodorion yn 1833 am ei *Historical Account of the Monasteries and Abbeys of Wales*. Fe ymddangosodd y gwaith hwn yn nhrefodion y Cymmrodorion yn 1843, ar ôl ei farw.

Gofynnwyd iddo ddarparu ail-argraffiad o *Corph y Gainc Dafydd Ddu Eryri* yn 1834 ac fe gyflwynwyd y gyfrol i Bayley Williams gan y cyhoeddwr:

'Am ei barodrwydd i noddi Llenyddiaeth Gymreig, ac yn enwedig am ei garedigrwydd tuag ar yr Awdur, mal arwydd ddyledus o fri y cyflwynydd y Gwaith Barddonawl hwn, gan ei ostymedig a'i ufudd wasanaethydd, Y Cyhoeddwr.'

* * * *

FE YMGEISIODD Bayley Williams gasglu ynghyd weithiau Dafydd Ddu a oedd wedi eu cyfansoddi er yr argraffiad cyntaf er mwyn eu cynnwys yn y gyfrol, ac ynghyd ag edmygdwyd arall o'r Bardd — Owen Gwyrfai o'r Waunfawr — fe ysgrifennodd gofiant byr iddo.

Er i Dafydd Ddu ddigio lawer gwaith wrtho 'roedd Bayley Williams yn awyddus yn y cofiant i wrth-brofi'r stori oedd wedi mynd ar led mai wedi syrthio i Afon Cegin yn ei ddiod yr oedd Dafydd. Ef hefyd a fu'n bennaf gyfrifol am godi'r gist o lechfaen ar ei fedd ym mynwent Llanrug a chael chwech o'r beirdd i gyfansoddi englynion i'w torri arni.

Bu farw Tachwedd 22, 1836, ac fe'i claddwyd ym mynwent ei eglwys yn Llanrug heb fod ymhell o fedd Dafydd Ddu ei hun.

Y flwyddyn nesaf bydd dwy ganrif wedi mynd heibio er iddo ddod yn offeiriad i Lanrug a Llanberis, ac fe hoffwn feddwl y byddai yn amser addas i'w gofio. 'Roedd yn un o'r offeiriad goleuedig hynny a oedd yn gallu ymateb i ofynion ei blwyfolion, ac ar yr un pryd wedi gallu changu ei orwelion a'i diddordebau er lles a budd ei genhedlaeth yn gyffredinol.

Mae yn rhan o'n treftadaeth erbyn hyn ac mae yna gyfrifoldeb arnom bob amser i gadw'r dreftadaeth honno i'r rhai sydd yn dod ar ein hôl.